Ysgol Glan Conwy,
Glan Conwy,
Conwy.
LL28 5ST
Pennaeth: Mrs Eifiona Price Williams
Ffôn: 01492 580421
e-bost: pennaeth@glanconwy.conwy.sch.uk

Annwyl Rieni / Gofalwyr, 11/01/24

Blwyddyn Newydd dda i chi oll. Croeso yn ôl i chwi oll a gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau Nadolig ac wedi cael cyfle i ymlacio ar gyfer prysurdeb tymor newydd yn yr ysgol.
Mae rhai pethau sydd angen eu hatgoffa ar ddechrau blwyddyn fel hyn:

Ysgol Iach
Gan ein bod yn Ysgol Iach anogir pawb i ddod a byrbryd iach i'r ysgol h.y. ffrwyth ac **nid fferins, creision neu bariau llawn siwgr**. Mae hyn hefyd yn cynnwys **diodydd**. Mae dŵr ar gael os ydyw eich plant ei eisiau. Awgrymir eu bod yn dod a'u potel neu cynhwysydd eu hunain er mwyn ei ddefnyddio yn y ffynnon ddŵr ar gyfer hylendid.

Presenoldeb
Mae presenoldeb a phrydlondeb yn holl bwysig i addysg plentyn. Gall hyd yn oed absenoldeb byr amharu ar addysg ac mae hyn yn fwy, fwy pwysig erbyn hyn yn dilyn yr holl darfu fu ar ein bywydau oll, gan gynnwys ysgolion, yn sgil Covid.
Yr ydym yma, yn Ysgol Glan Conwy wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod pob plentyn sy'n mynychu'r ysgol yn cael yr addysg orau posib a'u bod yn cael cefnogaeth i gyflawni eu potensial llawn.
Mae colli ysgol yn tanseilio cyfle eich plentyn i gyrraedd ei lawn botensial. Mae'n ffaith fod presenoldeb cyson yn cynyddu cyfleoedd plant i lwyddo yn yr ysgol. Os nad yw plant yn mynychu'r ysgol y tebygrwydd yw nad ydynt yn dysgu! Mae'n amlwg fod presenoldeb da yn sylfaen gadarn i ddatblygiad plentyn. Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn gwbl hanfodol er mwyn i'r plant lwyddo yn y dyfodol.
Presenoldeb yr ysgol gyfan dros y tymor diwethaf oedd **93%** sydd yn is na tharged Llywodraeth Cymru o **95%.** Yr ydym hefyd yn ymwybodol fod yna lawer o salwch amrywiol wedi bod y tymor diwethaf.
Gobeithiwn y bydd tymor yma yn fwy iach i bawb ac y byddem i gyd yn **mynychu'r ysgol yn brydlon** a phob diwrnod.
Mae presenoldeb o bwys pan fo dyfodol eich plentyn yn y fantol. Os ydych yn cael trafferth gyda phresenoldeb eich plentyn, yna dewch i drafod. Rydym yma i'ch cefnogi.
Fe fyddem yn tracio presenoldeb yn gyson ac yn cysylltu â chi os ydym yn pryderu am bresenoldeb eich plentyn. **Ni fyddwn yn ystyried awdurdodi unrhyw wyliau oni bai fod presenoldeb eich plentyn yn 94% neu uwch ac mewn amgylchiadau eithriadol** (hyd at 5 diwrnod). Mae angen gofyn am absenoldeb gwyliau o leiaf mis ymlaen llaw.
Mae hi'n hanfodol os ydyw eich plentyn yn absennol am unrhyw reswm i gysylltu â'r ysgol cyn gynted a phosib trwy ffonio neu trwy lythyr esboniad os gwelwch yn dda.

Siop Ffrwythau
Cofiwch fod Siop Ffrwythau ar gael pob dydd, cost y ffrwythau fydd £1.00 yr wythnos.

Dillad - A fedrwch sicrhau fod dillad eich plentyn wedi ei labelu'n glir â'u henw. Diolch.

Cyfeillion yr Ysgol – Cyfarfod nesaf am **6pm dydd Iau Ionawr 18fed**. Croeso cynnes i bawb. Cyfle i rannu syniadau ar gyfer cynnal gweithgareddau ar gyfer codi arian ar gyfer eich plant.

Diolch am eich cydweithrediad gyda'r materion uchod.

Ysgol Glan Conwy,
Glan Conwy,
Conwy.
LL28 5ST
Head teacher: Mrs Eifiona Price Williams
Tel: 01492 580421
E-mail: pennaeth@glanconwy.conwy.sch.uk

Dear Parents / Carers, *11/01/24*

Happy New Year to you all. Welcome back and I hope you enjoyed your Christmas holidays and managed to spend some time relaxing in preparation for the busy new term at school.
Here are some things that need to be brought to everyone's attention at the beginning of the year like this:

Healthy School
As we are a Healthy School, everyone is encouraged to bring a healthy snack with them to school, i.e. a piece of fruit, ***not sweets, crisps or sugary snack bars****. This also includes* ***drinks****. There is water available for your children if needed. We suggest that they bring their own bottle or container to use at the water fountain in the interest of hygiene.*

Attendance
Attendance and punctuality are essential to a child's education. Even short absences can affect their education, and this is now increasingly important following all the disruption Covid brought to everyone's lives, including schools.
We at Ysgol Glan Conwy are fully committed to ensuring that every child attending the school receives the best possible education and that they are supported to achieve their full potential.
Missing school undermines your child's opportunity to achieve their full potential. It's a fact that regular attendance increases children's opportunities to succeed at school. If children aren't attending school, they probably aren't learning! Good attendance clearly provides a sound foundation for a child's development. Regular school attendance is essential for a child's future success.
The whole school's attendance for last term was ***93%****, which is lower than the Welsh Government's target of* ***95%****. We are also aware that there have been many various illnesses around last term. We hope that this term will be a healthier one for everyone and that we* ***can all attend school punctually*** *every day.*
Attendance is important when your child's future is at stake. If you're having difficulties with your child's attendance, please contact us to discuss the matter. We're here to support you.
We will be regularly tracking attendance and will contact you if we are concerned about your child's attendance. ***We will not consider authorizing any holidays unless your child's attendance is 94% or above, and even then, only in exceptional circumstances*** *(up to 5 days). If holiday absence is requested it must be sent to the school a month prior to the planned holiday.*
If your child is absent for any reason, it is essential that you contact the school as soon as possible by calling or sending in a letter of explanation.

Fruit Shop
Please remember the Fruit Shop will be open again this term where your child can purchase a fruit for £1.00 a week.

Clothing *-* ***Could you please ensure that your child's clothes are clearly labelled with their name****. Thank you.*
PTA – *a meeting will be held on Thursday January 18th at 6pm. Please come and support the PTA with new ideas to organize new fundraising events for your children. Everyone is welcome to join.*

Thank you for your support and cooperation with the above issues.